## Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deddfwriaeth Orfodol i Sicrhau Bod Diffibrilwyr ar Gael Ym Mhob Man Cyhoeddus – Adroddiad ar Ystyried Deiseb (P-04-471)

---

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod diffibrilio brys drwy ddefnyddio diffibrilwyr allanol awtomataidd (AED) yn gwella gobaith cleifion sy'n dioddef ataliad ar y galon o ddod drwyddi.

Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, wedi bod yn gosod ac yn hyrwyddo'r defnydd o AED mewn mannau strategol allweddol ledled Cymru, lle mae llawer o ymwelwyr neu lle mae problem i'r gwasanaethau brys ymateb oherwydd lleoliad diarffordd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gynnig hyfforddiant a chymorth AED i unigolion a grwpiau.

Ym mis Mai 2013, lansiodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Law yn Llaw at Iechyd – Cynllun Cyflawni ar gyfer Clefyd y Galon. Bwriad y cynllun yw atal clefyd y galon yn well a sicrhau bod y rheini sy'n dioddef unrhyw fath o glefyd y galon yn derbyn gwasanaethau o ansawdd yn brydlon. O dan Thema Cyflawni 3: Gofal Cyflym ac Effeithiol, ceir gofyniad i adolygu'r ddarpariaeth o ddiffibrilwyr mewn mannau cyhoeddus ac ymatebwyr cyntaf yn y gymuned i sicrhau darpariaeth a hyfforddiant digonol.

Ym mis Chwefror 2015, lansiais yr ymgyrch 'Be a Defib Hero' yn galw ar sefydliadau i gofrestru os oes ganddynt AED i'w ddefnyddio i achub bywyd mewn argyfwng.

Rydym hefyd yn datblygu cynllun Ataliad ar y Galon y Tu Allan i'r Ysbyty (OHCA) ar gyfer Cymru. Caiff y cynllun ei gyhoeddi'n ddiweddarach eleni a bydd yn cyd-fynd â themâu'r argymhellion gan y Pwyllgor.

**Argymhelliad 1**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n cymryd camau i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o fanteision Diffibrilwyr Awtomataidd Allanol, yn cynnwys fod modd iddynt gael eu defnyddio'n ddiogel gan bobl sydd heb gael hyfforddiant.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod lle i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ddiffibrilwyr a gwella'r mynediad atynt. Yn y deng mlynedd diwethaf, mae'r ddarpariaeth ohonynt wedi cynyddu'n sylweddol drwy waith Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, elusennau, busnesau, grwpiau cymunedol ac unigolion. Mae diffibrilwyr yn dod yn fwy cyffredin mewn dinasoedd, trefi a phentrefi.

Rydym yn datblygu cynllun Ataliad ar y Galon y Tu Allan i'r Ysbyty ar gyfer Cymru. Bydd cyhoeddusrwydd a chodi ymwybyddiaeth o ddiffibrilwyr a dadebru cardio-pwlmonaidd yn elfennau allweddol yn y cynllun.

**Goblygiadau ariannol:** Caiff unrhyw ofynion ariannol eu hystyried fel rhan o ddatblygu'r cynllun.

**Vaughan Gething AC, y Dirprwy Weinidog Iechyd**

**Argymhelliad 2**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod Diffibrilwyr Awtomataidd Allanol wedi'u gosod ym mhob peiriant tân yng Nghymru.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bŵer i'w gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub osod cyfarpar penodol yn eu peiriannau tân. Fodd bynnag, rydym yn credu'n gryf y dylid arallgyfeirio rôl Awdurdodau Tân ac Achub, yn enwedig i gefnogi'r GIG. Mae hyn yn rhan o'r Fframwaith Cenedlaethol newydd ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub rydym yn ymgynghori arno ar hyn o bryd. Mae galluogi Awdurdodau Tân ac Achub i ymateb yn well i achosion o ataliad ar y galon yn rhan bwysig o hyn. Mae hyn yn gofyn am fwy na dim ond gosod Diffibrilwyr Awtomataidd Allanol: mae hefyd yn golygu hyfforddi criwiau tân i'w defnyddio a sicrhau dealltwriaeth glir gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'r Cyd-bwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys ynghylch sut gall criwiau tân helpu mewn ymateb i gleifion sy'n dioddef ataliad ar y galon.

Ar hyn o bryd, mae AEDs ar gael ym mhob peiriant tân rheng flaen yn ardal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, ac mae pob criw wedi'u hyfforddi i'w defnyddio. Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi cynnal treial hynod lwyddiannus lle ymatebodd y criwiau tân i achosion meddygol brys, gan gynnwys achosion o ataliad ar y galon; bwriedir ehangu'r rhaglen hon i nifer o orsafoedd tân eraill yn Ne Cymru yn fuan. Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, mae 14 o orsafoedd yn darparu gwasanaeth 'cyd-ymateb' ar ran Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, gan gynnwys ymateb i achosion o ataliad ar y galon; bydd hyn yn cynyddu'n fuan i 21. Mae AEDs ym mhob un o'r peiriannau yn y gorsafoedd hyn ac mae pob criw wedi cael eu hyfforddi i'w defnyddio. Yng Ngoledd Cymru, mae rhaglen dreigl ar gyfer gosod AEDs mewn peiriannau a hyfforddi criwiau, eto'n cwmpasu'r holl ddarpariaeth rheng flaen maes o law.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu felly bod Awdurdodau Tân ac Achub naill ai eisoes yn cydymffurfio â'r argymhelliad hwn neu'n gwneud cynnydd da tuag at wneud hynny. Serch hynny, byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac yn cymryd pellach os bydd hynny'n briodol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Nid yw Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid craidd i Awdurdodau Tân ac Achub.

**Leighton Andrews AC, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**

**Argymhelliad 3**

Mae’r Pwyllgor yn argymell:

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru’n cymryd camau i sicrhau bod lleoliad pob Diffibriliwr Awtomataidd Allanol sydd ar gael yn gyhoeddus yng Nghymru yn cael ei gofrestru gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

**Ymateb:** Derbyn

Rydym eisoes wedi cymryd camau i sicrhau bod AEDs yn cael eu cofrestru gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru drwy ymgyrch ‘Be a Defib Hero' ar y cyd gan yr Ymddiriedolaeth a Sefydliad Prydeinig y Galon, y lansiais ym mis Chwefror 2015. Mae’n gofyn i sefydliadau lleol, gan gynnwys gweithleoedd, clybiau chwaraeon a chanolfannau cymunedol i gofrestru os oes ganddynt AED y gallai’r cyhoedd ei ddefnyddio fel Diffibriliwr Mynediad Cyhoeddus (PAD)[1].

Hyd yn hyn, mae’r Ymddiriedolaeth wedi cofrestru dros 1,200[2] o PADs sydd ar gael i’r cyhoedd mewn achos o ataliad ar y galon, ac mae’n gweithio gyda BHF ar brosiect mapio PAD ar gyfer y DU gyfan.

**Goblygiadau ariannol:** Heb eu nodi

**Vaughan Gething AC, y Dirprwy Weinidog Iechyd**

[1] Mae Diffibrilwyr Mynediad Cyhoeddus (PAD) yn Ddiffibrilwyr Awtomataidd Allanol (AED) – defnyddir y ddau derm.
[2] Darparwyd gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i swyddogion ar 05/08/2015

**Argymhelliad 4**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried cymryd camau i sicrhau bod Diffibrilwyr Awtomataidd Allanol ar gael ac yn cael eu gwneud yn gwbl hygyrch mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru, at ddefnydd ymatebwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol. Wrth wneud hynny, dylai'r Llywodraeth ystyried beth sy'n rhesymol ac ymarferol o edrych ar faint a lleoliad y mannau dan sylw a nifer yr ymwelwyr.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Ers 2006, mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, wedi bod yn gosod Diffibrilwyr Mynediad Cyhoeddus (PADs) ledled Cymru. Dewiswyd y safle oherwydd nifer fawr o ymwelwyr, llawer o achosion o glefyd y galon a safleoedd diarffordd. Lle bo'n briodol, mae AEDs a ariannwyd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan Lywodraeth Cymru wedi'u cofrestru gyda'r Ymddiriedolaeth ac ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio.

Mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth, byrddau iechyd ac elusennau, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn ffordd ragweithiol i hyrwyddo a gosod PADs ledled Cymru.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol pellach.

**Vaughan Gething AC, y Dirprwy Weinidog Iechyd**

**Argymhelliad 5**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried a oes angen deddfwriaeth yn sail i'r angen i gofrestru Diffibrilwyr Awtomataidd Allanol sydd ar gael yn gyhoeddus yng Nghymru ac i ddarparu tawelwch meddwl "Samariad Trugarog" i aelodau o'r cyhoedd sydd heb gael hyfforddiant ac sy'n eu defnyddio efallai i geisio achub bywyd rhywun.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Mae system eisoes yn bodoli i gofrestru pob PAD yng Nghymru.

Nid ydym yn credu mai deddfwriaeth yw'r ffordd orau ymlaen ar hyn o bryd. Gallai annog busnesau a sefydliadau i beidio â buddsoddi mewn AED os yw'n gyfreithiol ofynnol iddynt ei gofrestru. Byddai'n anodd olrhain AEDS cyfredol a newydd a gorfodi'r gyfraith. Rydym eisiau cyfle i'r trefniadau gwirfoddol cyfredol gael eu sefydlu.

Nid yw cyfraith esgeulustod wedi'i datganoli. Fodd bynnag, pasiodd Senedd y DU '*Social Action, Responsibility and Heroism Act 2015'* ym mis Chwefror, sy'n berthnasol i Gymru. Nod y ddeddf hon yw rhoi sicrwydd i bobl sy'n gweithredu er budd cymdeithas neu'n ymyrryd i helpu rhywun mewn argyfwng.

Rydym yn cytuno y dylai pobl gael eu cefnogi a'u hannog i ddefnyddio'r Diffibrilwyr Awtomataidd Allanol sydd ar gael yn gyhoeddus pan fydd eu hangen; ond nid ydym o'r farn mai deddfwriaeth yw'r ffordd briodol sydd ei hangen i gynnig yr anogaeth honno.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Vaughan Gething AC, y Dirprwy Weinidog Iechyd**